NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Lymphovenous anastomosis yn ystod dyrannu nodau ceseiliol neu arffedol er mwyn atal lymffoedema eilaidd

16 Ebrill 2024

## Canser y Fron

Nid oes digon o dystiolaeth ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio yn y tymor hir na sut mae'n effeithio ar ansawdd bywyd i bobl â chanser y fron. Ond nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr. Felly, gellir ond ei wneud â threfniadau arbennig. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

## Canserau eraill

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil ar gyfer canserau eraill y gellir gwneud y driniaeth hon. Mae hyn am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw. Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr ymchwil.

Hylif yw lymff sy'n cael ei gludo o gwmpas y corff gan system o fân bibellau. Gall codi nodau lymff (neu chwarennau lymff) yn llawfeddygol (dyrannu), er enghraifft yn ystod llawdriniaeth ar gyfer canser y fron (nodau ceseiliol) neu fwlfa (nodau arffedol), arwain at lymff yn cronni o dan y croen (lymffoedema). Gwneir y driniaeth hon pan gaiff y nodau lymff eu codi. Caiff rhai o'r pibellau lymffatig lle mae'r nodau lymff wedi'u codi eu dargyfeirio i wythiennau cyfagos (lymphovenous anastomosis). Mae hyn yn helpu'r lymff i lifo mewn ffordd arferol a pheidio â chronni. Y nod yw atal lymffoedema a'r symptomau a achosir ganddo.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth yw'r trefniadau arbennig ac sydd ond mewn gwaith ymchwil.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8972-0